Eich canllaw i gael ysgariad

Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

Cael cyngor

Gall y syniad o ysgaru fod yn ddigon i'ch dychryn, ond nid oes angen i'r broses fod yn un anodd gyda'r cyngor proffesiynol cywir.

Mae eich cyfreithiwr yno i'ch arwain drwy'r broses, eich helpu i osgoi unrhyw anawsterau cyfreithiol a chynnig cyngor sensitif ond annibynnol.

Dewis cyfreithiwr

Os nad oes gennych gyfreithiwr yn barod, ewch i'n gwefan yn www.lawsociety.org.uk/findasolicitor a chwiliwch o dan 'Family' i gael manylion cyfreithwyr yn eich ardal. Efallai y byddwch am gyfarwyddo aelod o gynllun achredu cyfraith teulu Cymdeithas y Cyfreithwyr. Cewch fanylion am y cynllun hwn ar y wefan, neu gallwch ffonio 0870 606 2555.

Gall ysgariad godi materion sensitif a phersonol, felly mae'n bwysig dewis cyfreithiwr sy'n gwneud i chi deimlo'n gyfforddus. Dewiswch rywun y mae'n hawdd siarad ag ef ac yr ydych yn teimlo eich bod yn deall ei gyngor. Gall fod yn ddefnyddiol siarad â nifer o gyfreithwyr cyn i chi benderfynu pwy i'w benodi.

Sut y gall cyfreithiwr helpu

Cyfrifoldeb eich cyfreithiwr yw:

- egluro'r broses ysgaru i chi;
- dechrau'r achos ysgaru ar eich rhan; ac
- unwaith y bydd wedi dechrau, eich hysbysu o unrhyw ddatblygiadau.

Bydd eich cyfreithiwr yn anfon atoch gopïau o unrhyw lythyrau a dderbynnir ganddo yn ymwneud â'ch ysgariad. Bydd hefyd yn rhoi gwybod i chi yn gyson am y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr achos, a manylion unrhyw gostau cysylltiedig.

Os oes risg y cewch eich cam-drin yn y cartref ar unrhyw adeg, bydd eich cyfreithiwr yn ei gwneud yn flaenoriaeth i drafod pob ffordd bosibl o'ch cadw chi a'ch plant yn ddiogel.

Beth y bydd angen i'ch cyfreithiwr ei wybod

Er mwyn cael dealltwriaeth drwyadl o'ch amgylchiadau,
bydd eich cyfreithiwr yn gofyn i chi am amrywiaeth o fanylion a dogfennau.

Gallai'r rhain gynnwys:

- eich rhesymau dros ysgaru;
- a ydych yn byw ar wahân i'ch gŵr neu'ch gwraig a phryd y gwnaethoch chi wahanu;
- enwau ac oedran unrhyw blant sy'n rhan o'r teulu;

- trefniadau byw cyfredol y plant a'u trefniadau byw yn y dyfodol;
- y trefniadau cysylltu cyfredol rhwng rhieni a'u plant;
- rhestr o'ch asedau, cynilion, incwm a threfniadau pensiwn, a rhai eich gŵr neu'ch gwraig;
- manylion unrhyw broblemau sy'n parhau megis camddefnyddio sylweddau, dyledion ac yn y blaen;
- manylion unrhyw achosion o gam-drin yn y cartref;
- eich tystysgrif briodas; ac
- unrhyw ddogfennau, enwau a dyddiadau perthnasol eraill.

Bydd y manylion a'r dogfennau hyn yn helpu eich cyfreithiwr i benderfynu ar ba sail y gellid ysgaru a pha ddewisiadau eraill a allai fod ar gael i chi. Byddant hefyd yn helpu eich cyfreithiwr i amcangyfrif amserlenni, costau a chanlyniadau posibl eich achos.

Rhesymau dros ysgaru

Dim ond os gallwch ddangos bod eich priodas wedi methu ac na ellir ei hadfer y gallwch gael ysgariad. Er mwyn gwneud hynny rhaid i chi ddangos nad oes modd adfer eich priodas oherwydd:

- bod eich gŵr neu'ch gwraig wedi godinebu;
- bod ymddygiad eich gŵr neu'ch gwraig cynddrwg fel na ellir yn rhesymol ddisgwyl i chi fyw gyda fe neu hi;
- i'ch gwr neu'ch gwraig eich gadael o leiaf ddwy flynedd yn ôl heb reswm da;
- eich bod wedi gwahanu oddi wrth eich gŵr neu'ch gwraig am ddwy flynedd ac mae'n cytuno i ysgaru; neu
- eich bod wedi gwahanu oddi wrth eich gŵr neu'ch gwraig am bum mlynedd neu ragor.

Bydd eich cyfreithiwr yn gallu rhoi rhagor o fanylion i chi am bob un o'r amgylchiadau hyn.

Os yw archddyfarniad ysgaru yn mynd yn groes i'ch crefydd, gall eich cyfreithiwr roi cyngor i chi ar ffurfiau eraill o wahanu.

Y broses ysgaru

Mae'r broses gyfreithiol ffurfiol o gael ysgariad yn un gymharol syml. Yr hyn sy'n llai syml fel arfer yw datrys y materion ymarferol sy'n gysylltiedig ag ysgariad, megis ble bydd pob person yn byw, pwy sy'n cael beth, a threfniadau ar gyfer unrhyw blant. Cyn cytuno ar faterion gyda'ch gŵr neu'ch gwraig, mae'n ddoeth cael cyngor gan gyfreithiwr ar eich hawliau a'r dewisiadau sydd ar gael i chi.

Eich canllaw i gael ysgariad

Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

Y termau cyfreithiol a ddefnyddir mewn ysgariad

Yn y llys ac mewn dogfennau cyfreithiol, gelwir y sawl sy'n gwneud cais am yr ysgariad yn 'ddeisebwr', a'r sawl y mae'n ei ysgaru yn 'atebydd'.

Y llythyr cyntaf i'r atebydd

Os mai chi sy'n gwneud cais am yr ysgariad, bydd eich cyfreithiwr fel arfer yn dechrau'r broses drwy ysgrifennu llythyr at eich gŵr neu'ch gwraig i ddweud wrtho neu wrthi eich bod yn bwriadu dechrau achos ysgaru. Bydd y llythyr hwn hefyd yn argymell bod eich gŵr neu'ch gwraig yn cael cyngor cyfreithiol annibynnol os nad yw wedi gwneud hynny eisoes.

Deiseb ysgaru

Bydd eich cyfreithiwr wedyn yn anfon y ddeiseb ysgaru i'r llys. Mae'r ddeiseb yn nodi a fyddwch yn gofyn i'ch gŵr neu'ch gwraig dalu am gostau'r ysgariad neu ddarparu rhyw fath arall o gymorth ariannol ar eich cyfer chi neu'ch plant. Bydd y llys yn anfon copi o'r ddeiseb at eich gŵr neu'ch gwraig er mwyn i'w gyfreithiwr/chyfreithiwr ymateb iddi.

Unwaith y bydd eich gŵr neu'ch gwraig neu ei gyfreithiwr/chyfreithiwr wedi ymateb i'r ddeiseb, bydd angen i chi gadarnhau eich bod yn bwriadu mynd ymlaen â'r cais am ysgariad drwy wneud datganiad dan lw neu 'affidafid'. Wedyn cofnodir eich cais gyda'r llys. Os na fydd eich gŵr neu'ch gwraig yn ymateb neu os na ellir dod o hyd iddo/iddi, bydd eich cyfreithiwr yn dweud wrthych sut i oresgyn hyn.

Datganiad trefniadau ar gyfer plant

Os oes gennych blant o dan 16 oed (neu dros 16 ac mewn addysg amser llawn), bydd angen i chi lenwi ffurflen a elwir yn 'ddatganiad trefniadau ar gyfer plant'.

Mae'r ffurflen hon yn gofyn am fanylion am eich plant megis:

- gyda phwy y byddant yn byw;
- ble y cânt eu haddysg; a
- beth yw eich cynlluniau ar eu cyfer, gan gynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer ymweliadau gan y rhiant arall, neu gysylltiad ag ef neu â hi.

Pan fydd y llys yn ystyried papurau'r ysgariad, bydd yn ystyried y wybodaeth hon i sicrhau y caiff y plant y gofal cywir.

Archddyfarniad nisi

Unwaith y bydd y llys yn fodlon y dylech gael ysgariad, mae'n pennu dyddiad ac amser i'r barnwr gyhoeddi'r 'archddyfarniad nisi'. Nid oes angen i chi fynd i'r llys ar gyfer hyn. Datganiad gan y llys ydyw yn nodi y gall yr ysgariad fynd rhagddo a bod papurau'r ysgariad wedi'u cymeradwyo. Nid ydych wedi ysgaru eto mewn gwirionedd ar yr adeg hon.

Eich canllaw i gael ysgariad

Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

Os nad ydych chi a'ch gŵr neu'ch gwraig wedi cytuno pwy ddylai dalu costau cyfreithiol yr ysgariad, bydd y barnwr sy'n cyhoeddi'r archddyfarniad nisi yn gwneud y penderfyniad ar eich rhan.

Archddyfarniad absoliwt

Chwe wythnos ar ôl yr archddyfarniad nisi, gall y sawl sy'n gwneud cais am yr ysgariad drefnu i'r ysgariad gael ei wneud yn 'absoliwt'. Mae hyn yn diddymu'r briodas yn gyfreithiol. Fodd bynnag, fel arfer mae'n well i chi aros hyd nes y bydd y materion ariannol ('llareiddiad ategol') wedi'u datrys cyn cwblhau eich ysgariad fel hyn.

Anghytundebau

Ar y cyfan, mae anghytundebau yn ymwneud â'r canlynol:

- arian;
- eiddo; neu
- cysylltiad â phlant.

Mae gan gyfreithwyr ddyletswydd broffesiynol i ddatrys y materion hyn y tu allan i'r llys os yw hynny'n bosibl. Fel arfer mae o fudd i chi a'ch gŵr neu'ch gwraig gydweithredu gyda'r nod hwn. Bydd eich cyfreithiwr yn esbonio'r dewisiadau eraill sydd ar gael i chi yn lle achos llys, megis cyfryngu.

Os oes anghytuno am unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r ysgariad, megis arian a'r hawl i weld plant, dylech drefnu cyfarfod i ganfod a fyddai proses gyfryngu yn addas i chi cyn gwneud cais am orchymyn llys. Mae'r term 'cyfryngu' yn cyfeirio at y broses lle byddwch chi a'ch gwr neu'ch gwraig yn gweithio gyda rhywun sydd wedi'i hyfforddi i helpu pobl i ddatrys anghydfodau y tu allan i'r llys. Bydd eich cyfreithiwr yn gallu rhoi cyngor i chi ar hyn, a'ch helpu i drefnu'r cyfarfod.

Darparu gwybodaeth

Mae'n arbennig o bwysig eich bod yn darparu gwybodaeth lawn a manwl gywir am eich amgylchiadau ariannol ar gyfer eich cyfreithiwr. Problem gyffredin ac achos anghytundebau yw pan fydd gŵr neu wraig yn methu â nodi ei holl asedau. Mae hyn yn arafu popeth ac, os na ellir datrys y mater y tu allan i'r llys, efallai y bydd yn rhaid i'r unigolyn hwnnw dalu costau llys.

Tystion arbenigol

Os na allwch chi a'ch gŵr neu'ch gwraig gytuno ar werth eiddo neu asedau, gall eich cyfreithiwr awgrymu defnyddio tyst arbenigol i roi prisiad annibynnol. Mewn materion ariannol, yn aml defnyddir un tyst a gymeradwywyd gan y ddau bartner a'r llys.

Eich canllaw i gael ysgariad

Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

Anghytundebau a ddatrysir gan y llys

Os na allwch chi a'ch gŵr neu'ch gwraig ddatrys anghytundeb y tu allan i'r llys, gallwch ofyn i'r llys ddatrys y mater. Bydd y llys yn gwneud ei orau glas i'ch annog i negodi cytundeb rhyngoch, ond os metha hyn y barnwr fydd yn gwneud penderfyniad. Fel arfer bydd y barnwr yn cyhoeddi 'gorchymyn llys' i wneud ei benderfyniad yn un swyddogol.

Cofnodi eich cytundeb

Sut bynnag yr ewch chi ati i ddod i gytundeb â'ch gŵr neu'ch gwraig ar delerau ysgariad, gall eich cyfreithiwr roi cyngor i chi ar y ffordd orau o gofnodi'r hyn a gytunwyd gennych. Os bydd achos ysgaru eisoes yn mynd rhagddo, fel arfer bydd yn eich cynghori i ddewis gorchymyn llys a fydd yn nodi telerau'r cytundeb yn glir ac mewn ffordd sy'n orfodadwy yn gyfreithiol. Neu, os na fyddwch wedi dechrau achos ysgaru eto, dylech ystyried gwneud 'cytundeb gwahanu'.

Plant

Ym mhob mater sy'n ymwneud â phlant, daw lles y plant o flaen popeth arall. Bydd eich cyfreithiwr yn:

- pwysleisio sut y bydd cydweithredu â'ch gŵr neu'ch gwraig o fudd i'ch plant;
- eich rhybuddio o'r peryglon sy'n gysylltiedig ag annog plant i ochri â'r naill riant neu'r llall;
- eich annog i ystyried beth yr ydych yn bwriadu ei ddweud wrth eich plant am y gwahanu;
- rhoi gwybod i chi am ddewisiadau eraill heblaw am achos llys, megis cyfryngu;
- eich annog i beidio â bwrw ymlaen ag achos llys fel ffordd o ddatrys anghytundebau, ac eithrio 'pan fetho popeth arall'; a
- trin pob mater sy'n ymwneud â phlant yn gyfrinachol.

Yno i'ch helpu

Beth bynnag fo'ch amgylchiadau, mae gan gyfreithiwr cyfraith teulu y wybodaeth a'r profiad i gynrychioli eich buddiannau chi a buddiannau eich plant.

Costau

Gall y taliadau a godir amrywio o gyfreithiwr i gyfreithiwr a bydd yn dibynnu ar ba mor anodd yw eich achos. Cyn i chi benderfynu pwy i'w ddefnyddio, cysylltwch â rhai cyfreithwyr lleol i weld faint y maent yn ei godi.

Fodd bynnag, nid y pris yw'r unig ystyriaeth, yn arbennig mewn achos ysgaru sensitif. Mae'n bwysicach dod o hyd i gyfreithiwr y mae'n hawdd siarad ag ef ac sy'n sympathetig, ac un yr ydych yn deall ei gyngor.

Eich canllaw i gael ysgariad

Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

Cymorth ariannol

Os ydych ar incwm isel neu'n cael budd-daliadau'r Wladwriaeth, efallai y bydd modd i chi gael cymorth tuag at eich costau cyfreithiol. Bydd eich cyfreithiwr yn gwybod a ydych yn gymwys a bydd yn egluro'r gwahanol opsiynau sydd ar gael i chi.

Rhagor o wybodaeth

Mae'r daflen hon yn un o gyfres o daflenni sy'n ymdrin â'r mathau mwyaf cyffredin o wasanaethau cyfreithiol a ddarperir gan gyfreithwyr. Rhestrir taflenni eraill yn y gyfres isod. Gofynnwch i'ch cyfreithiwr am gopi am ddim neu ewch i **www.lawsociety.org.uk/commonlegalproblems**.

Eich canllaw i wneud ewyllys
Eich canllaw i brynu cartref
Eich canllaw i broblemau yn y gwaith
Eich canllaw i sefydlu busnes
Eich canllaw i wneud cais am iawndal oherwydd anaf personol
Eich canllaw i faterion ariannol ar gyfer yr henoed
Eich canllaw i sefydlu cartref gyda'ch partner
Eich canllaw i roi eich eiddo ar rent
Eich canllaw i rentu cartref
Eich canllaw i ddefnyddio cyfreithiwr
Eich canllaw i brofiant
Eich canllaw i hawlio lloches

Mae'r daflen hon ar gael mewn print bras, mewn Braille, ar dâp sain ac ar CD. Os oes angen un o'r fersiynau hyn arnoch, cysylltwch â ni drwy e-bost yn accessibility@lawsociety.org.uk neu ffoniwch 0870 606 2555.

Mae'r daflen hon hefyd ar gael mewn gwahanol ieithoedd. Gallwch eu cael drwy fynd i'n gwefan, www.lawsociety.org.uk.

Lexcel
Chwiliwch am Lexcel - nod rhagoriaeth

The Law Society 113 Chancery Lane London WC2A 1PL Ffôn: 020 7242 1222 www.lawsociety.org.uk

Er i ni wneud pob ymdrech i ddarparu gwybodaeth gywir, mae'r gyfraith yn newid o hyd ac yn effeithio ar bob person yn wahanol.
Nid yw'r daflen hon felly yn lle cyngor penodol a roddir i chi yn bersonol ac ni fyddwn yn atebol i chi os byddwch yn dibynnu ar y daflen hon.

Dyluniwyd gan dmlmarketing.co.uk Fersiwn 5, 2011